**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 1030

# Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2000

### Enwi, Cychwyn a Chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 1 Ebrill 2000.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "awdurdod gwerth gorau" ("*best value authority*") yw'r canlynol:

— mewn perthynas â rhannau 1 a 2 o'r Tabl yn Erthygl 3 – cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, gan gynnwys, lle bo'n briodol, y cynghorau hynny yn gweithredu fel awdurdodau gwaredu gwastraff

— mewn perthynas â rhan 3 o'r Tabl hwnnw – cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

— mewn perthynas â rhan 4 o'r Tabl hwnnw awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

### Dangosyddion Perfformiad

**3.** Rhaid i berfformiad awdurdod gwerth gorau wrth arfer ei swyddogaethau gael ei fesur drwy gyfeirio at y dangosyddion perfformiad a bennir yn y Tabl isod mewn perthynas â'r swyddogaethau a nodir yn y Tabl.

**TABL**

Swyddogaethau'r Awdurdodau Gwerth Gorau a'r Dangosyddion Perfformiad y Mesurir Perfformiad y Swyddogaethau hynny drwyddynt

| | |
|---|---|
| **Rhan 1** | **Pob swyddogaeth** |
| | Pob dangosydd yng ngholofn 1 o Atodlen 1 |
| **Rhan 2** | **Addysg** |
| | Pob dangosydd yng ngholofn 1 o Atodlen 2 |
| | **Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| | Pob dangosydd yng ngholofn 1 o Atodlen 3 |
| | **Tai** |

Pob dangosydd yng ngholofn 1 o Atodlen 4

**Gwasanaethau'r Amgylchedd**

Pob dangosydd yng ngholofn 1 o Atodlen 5

**Trafnidiaeth**

Pob dangosydd yng ngholofn 1 o Atodlen 6

**Gwasanaethau Diwylliannol a Gwasanaethau Cysylltiedig**

Pob dangosydd yng ngholofn 1 o Atodlen 8

**Rhan 3**

**Cynllunio Gwlad a Thref**

Pob dangosydd yng ngholofn 1 o Atodlen 7

**Rhan 4**

**Pob swyddogaeth**

Y dangosyddion â'r rhifau: BVP1W1, BVP12, BVP15a, BVP15b, BVP18, BVP112, BVP113, BVP114, BVP115, BVP116 a BVP117 yng ngholofn 1 o Atodlen 1

---

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

*D. Elis Thomas*
22 Mawrth 2000 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1998 p.38.